Minutes

Cyngor

Date: Dydd Mawrth, 25 Ebrill 2023

Time: 5.00 pm

Present: Councillors C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, L James, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, J Jones, G Horton, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Harvey, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, C Townsend, T Watkins, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, A Morris, F Hussain and B Perkins

Apologies: Councillors A Screen, J Cleverly, D Fouweather, M Kellaway and K Thomas

1. **Rhagofynion**

1.i Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Fouweather, Screen, Kellaway a Cleverly

1.ii Datganiadau o Ddiddordeb
Dim.

2. **Cofnodion**

Cytunwyd ar Gofnodion Chwefror 28 2023, yn amodol ar y canlynol:

Gofynnodd y Cynghorydd M Howells am i'r Cwestiwn i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael ei gynnwys yn y Cofnodion, gan iddynt gael eu gadael allan o bapurau'r Agenda.

3. **Penodiadau**

I ystyried y penodiadau arfaethedig a osodir allan yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Clarke y penodiadau a osodwyd allan yn yr Adroddiad, gyda chytunwyd y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol isod.

Eiliodd y Cynghorydd Routley yr adroddiad.

Penderfynwyd: Cytuno i'r penodiadau a ganlyn.

Penodiadau i Gyrff Llywodraethol

Corff Llywodraethol	Nifer Llefydd Gwag/Ail-benodiadau	Enwebiadau a dderbyniwyd

Ysgol John Frost	Ail-benodiad	Charles Ferris
Ysgol Gynradd EyngNgh Charles Williams	Lle gwag	Liz Andrews
Ysgol Gynradd Pilgwenlli	Lle gwag	Jack Littlejohns
Ysgol Bartneriaeth y Gaer a Maesglas	Lle gwag	Jack Littlejohns

Penodiad Cyrff Allanol i Fwrdd Draeniad Caldicot a Gwynllŵg
Cynghorwyr A Screen a P Drewett.

4. **Materion yr Heddlu**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol yr Uwch-Arolygydd Jason White, a roddodd gyfoesiad i aelodau'r cyngor ar faterion yr Heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol yr Uwch-Arolygydd White ar ei ddyrchafiad.

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i annerch yr Uwch-Arolygydd White.

Llongyfarchodd yr Arweinydd yr Uwch-Arolygydd ar ei ddyrchafiad.
Cyfeiriodd yr Arweinydd at nodyn briffio a anfonwyd yn ddiweddar at aelodau gan y Prif Arolygydd Davies, a oedd yn fuddiol iawn. Yr oedd yn tynnu sylw at y mannau lle'r oedd cysylltiadau'r heddlu, ac yn amlinellu'r prif faterion ledled y ddinas. Yr oedd cefnogaeth i hyn, gyda'r cynghorwyr yn cytuno fod y nodyn briffio yn dra defnyddiol. Gofynnodd yr Arweinydd a oedd yr Heddlu yn bwriadu parhau a hyn. Dywedodd yr Uwch-Arolygydd y byddai'r fformat briffio yn parhau, ond y byddai rhai newidiadau ymhlith y swyddogion; yr oedd Carl Williams yn parhau fel Prif Uwch-Arolygydd , a'r Uwch-Arolygydd White yn cymryd lle Vicki Townsend. Byddai'r Prif Arolygydd Davies yn aros yng Nghasnewydd ond yn cymryd drosodd rôl flaenorol yr Uwch-Arolygydd. Byddai Amanda Thomas hefyd yn delio a materion cymdogaeth.

<u>Cwestiynau i'r Heddlu a godwyd gan y Cynghorwyr:</u>

- Yr oedd y Cynghorydd Jordan am gyfleu ei ddiolch i'r Arolygydd Hannah Welty a'r tîm a fu'n delio â lladrad o siop bapur newydd yn y Betws yn ddiweddar, a arweiniodd at arést. Yr oedd Ysgol Millbrook yn y Betws wedi ei thargedu gan lanciau a dorrodd i mewn ac achosi difrod. Yr oedd y Pennaeth yn yr ysgol ar un achlysur pan dorrwyd i mewn, a llwyddodd i seinio'r larwm, gan beri i'r llanciau ffoi. Gollyngodd un llances ei phwrs, ac felly roedd modd gwybod pwy ydoedd. Torrwyd i mewn hefyd i adeilad Dechrau'n Deg, ac Ysgol Ifor Hael. Gofynnodd y Cynghorydd Jordan am fwy o bresenoldeb yr heddlu ar droed o gwmpas yr ardal. Cytunodd yr Arolygydd i gynyddu nifer patrolau'r heddlu yn ôl y cais. Cadarnhaodd y Ditectif Arolygydd fod yr heddlu yng Nghasnewydd yn awyddus iawn i nodi troseddwyr yn fuan, a bod ganddynt record dda o ymdrin â lladradau a throseddau treisgar. Dywedodd yr Uwch-Arolygydd, dros y 4-6 wythnos yng Nghanol a Gorllewin Casnewydd, fod yr Heddlu wedi nodi ac arestio 12 o unigolion, a bod gwaith atal ac ymyrryd yn mynd rhagddo. O ran y byrgleriaethau ym Millbrook a Dechrau'n Deg, dywedodd yr Uwch-Arolygydd fod yr Heddlu wedi buddsoddi'n drwm mewn system o'r enw 'Wnawn ni Ddim Prynu Trosedd', oedd wedi ei hanelu at atal troseddau. Yr oedd swyddogion yn helpu i atal troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel, gan roi cyngor ar atal troseddau a lleihau aildroseddu.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd M Howells at gerbydau'n ymgasglu a cheir yn rasio ar y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol. Yr oedd hyn yn arfer digwydd ar safle Tesco yn Spytty, a bu swyddogion yn gweithio'n galed iawn gyda chynghorwyr i ymdrin â hyn. Dywedodd y Cynghorydd M Howells fod hyn wedi digwydd eto dros y chwe mis diwethaf, gyda llanciau yn ymgasglu yn y Velodrome ac yn rasio eu ceir. Gofynnodd y Cynghorydd M Howells i'r heddlu ymateb i hyn, a chadarnhaodd ei fod yn hapus i gwrdd â Chasnewydd

Fyw i gael eu cefnogaeth. Yr oedd yr Uwch-Arolygydd yn falch o gyhoeddi fod galwadau wedi lleihau yn yr ardal honno. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd fod y cyn-Brif Arolygydd Blakemore yn arwain ar blismona oedd yn canolbwyntio ar ddatrys problemau ac yn edrych yn benodol ar broblemau ceir yn ymgynnull ar draws Casnewydd, a gwaith partneriaeth i ddatrys hyn mewn cymunedau.

- Soniodd y Cynghorydd Mogford ei fod yn falch o glywed fod Operation Harley yn ail-gychwyn. Aeth y Cynghorydd Mogford ymlaen i drafod e-sgwteri oedd yn teithio o gwmpas heb reolaeth, a holodd pa flaenoriaeth oedd yn cael ei roi i hyn. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd fod e-sgwter wedi ei atafaelu yr wythnos ddiwethaf yn St Julian's, ac i unigolyn gael ei arestio am fwriadu cyflenwi sgwter. Mae hyn yn broblem i'r DU gyfan, gan fod y sgwteri hyn yn cael eu defnyddio'n aml i gyflawni troseddau. Mae e-sgwteri yn gerbydau modur, felly gellid defnyddio tactegau dan Adran 165 Deddf Traffig y Ffyrdd i atafaelu'r cerbyd lle nad oes trwydded nac yswiriant. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd fod yn rhaid ystyried cymesuredd wrth ymyrryd. Yr oedd cael darlun cyflawn trwy wybodaeth hefyd yn bwysig, gan ddefnyddio'r Timau Cymdogaeth i gael gwybodaeth er mwyn atafaelu cerbydau dan Adran 59: defnyddio e-sgwter mewn dull gwrthgymdeithasol.

- Yr oedd y Cynghorydd Harvey am ymddiheuro i'r Prif Uwch-Arolygydd Carl Williams am roi gwybodaeth anghywir iddo. Yr oedd y Cynghorydd Harvey wedi ymddiheuro trwy e-bost, ond eisiau datgan hyn yn y Cyngor llawn gan i'r mater gael ei godi yn y cyfarfod diwethaf.

- Soniodd y Cynghorydd Marshall fod yr Hwb wedi agor ddoe, gan hyrwyddo technoleg a Gwybodaeth Artiffisial (AI) i helpu pobl mewn cymunedau i aros yn eu cartrefi dan Operation Herbert. Mae hyn wedi arwain at lai o ddefnydd o adnoddau'r heddlu, er enghraifft, pan fo angen dod o hyd i rywun â dementia, neu ddefnyddio dyfeisiadau i fwrw golwg ar les pobl. Gofynnodd y Cynghorydd Marshall a allai'r heddlu ddod draw i'r Hwb i weld y dechnoleg a'r modd y mae'n cefnogi'r heddlu a Chynghorwyr i gydweithredu a helpu cymunedau. Croesawodd yr Uwch-Arolygydd White y cyfle i staff yr heddlu ddod i'r Hwb, a chytunodd fod technoleg newydd yn allweddol i blismona ymatebol. Mae'r heddlu bellach yn cael gliniaduron, sydd wedi lleihau'r angen iddynt ddychwelyd i'r orsaf, a bod hyn yn eu helpu i fod yn fwy gweledol mewn cymunedau. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd White y gallai'r heddlu hefyd yn awr gymryd datganiadau rhithiol, yn ogystal ag wyneb yn wyneb.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at bwysigrwydd cael presenoldeb yr heddlu mewn cymunedau, sy'n tawelu meddyliau trigolion, a gofynnodd i'r Uwch-Arolygydd White roi cyfoesiad ar fod yn amlwg yn y gymuned. Dywedodd yr Uwch-Arolygydd White, er bod Casnewydd yn ardal fawr i'w phlismona, petai problem arbennig mewn ward, byddai swyddogion yn cael eu galw a byddant yn amlwg yn yr ardaloedd hyn. Ychwanegodd fod ceir yr heddlu yn aml yn cael eu gweld mewn galwadau blaenoriaeth, ond rhywbeth llai amlwg i'r cyhoedd oedd y timau cymdogaeth, swyddogion traffig y ffyrdd, a swyddogion uned drylliau ar y cyd. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd fod cynlluniau patrol ar gael, yn ogystal ag elfennau eraill megis SCCH. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd White fod Operation Uplift yn golygu fod niferoedd y llu yng Ngwent wedi cynyddu o 167 o swyddogion, ac y mae Casnewydd wedi elwa o hyn.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at Deer Park House, hen adeilad ger Cyfleuster Chwaraeon Whitehead. Aeth ymlaen i ddweud fod ffens o gwmpas yr adeilad, ond fod pobl ifanc yn eu harddegau wedi malu'r ffens, ac ymddwyn yn anghymdeithasol gan gynnwys trais, tân, ymladd a chyffuriau, a'r ymddygiad anghymdeithasol wedyn yn lledaenu i Gwrt Carnegie. Holodd y Cynghorydd Jones a allai'r heddlu ymweld â'r eiddo. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd White y byddai'n siarad â'r arolygydd lleol i sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

- Soniodd y Cynghorydd Adan am gau eiddo preswyl cysylltiedig â llinellau sirol, a gofynnodd faint o dai a gaewyd yn ardal Casnewydd oherwydd hyn. Dywedodd yr Uwch-Arolygydd nad oedd ganddo'r wybodaeth, ond y byddai'n e-bostio'r manylion; fodd bynnag, yr oedd yr Uwch-Arolygydd White yn ymwybodol fod un eiddo wedi ei gau ddiwedd Mawrth yn ardal Pilgwenlli o Gasnewydd a bod gwaith ar y gweill i gau lleoliad arall.

Soniodd y Cynghorydd Morris fod aelodau ward Lliswerry wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar lle mynegodd trigolion bryder am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn siopau Pontfaen. Yr oedd y Cynghorydd Morris wedi esbonio i'r trigolion fod adrodd wrth yr heddlu am bob digwyddiad yn golygu y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei gasglu a byddai modd gweithredu. Dywedodd y Cynghorydd Morris fod trigolion wedi dweud nad oedd modd iddynt gysylltu â'r heddlu, ac a allai'r Uwch-Arolygydd felly roi gwybod am ddulliau eraill o gysylltu. Dywedodd yr Uwch-Arolygydd fod gan yr holl swyddogion ward ffonau symudol, a bod manylion y swyddogion ward ar wefan Heddlu Gwent a sut i gysylltu â hwy, yn hytrach na defnyddio'r gwasanaeth 101. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd fod patrolau unswydd yn yr ardal hon, a bod yr heddlu yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i roi mesurau ataliol ar waith, megis ymwneud â phobl ifanc. Awgrymodd y Cynghorydd Spencer y gellid cysylltu â'r heddlu hefyd trwy Facebook. Cadarnhaodd yr Uwch-Arolygydd White fod adnoddau ar gael i hyn 24/7 a'i fod yn ymatebol iawn.

5. **Rhybudd o Gynnig: City of Sanctuary**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorydd Corten i gyflwyno'r cynnig, gyda'r Cynghorydd Clarke i eilio.

Mae'r Cyngor hwn yn pryderu am Fesur Mewnfudo Anghyfreithlon llywodraeth y DU sydd yn cynnig cadw ac yna symud unrhyw un sy'n cyrraedd y DU ar gwch bychan, sy'n golygu na fydd y Swyddfa Gartref yn ystyried unrhyw rai o'u ceisiadau am loches, hyd yn oed os ydynt wedi ffoi rhag rhyfel neu erledigaeth am fod yn perthyn i leiafrif.

Bydd y bobl hyn sy'n ceisio lloches wedyn yn cael eu hanfon yn ôl i'r wlad y maent wedi ffoi ohoni neu i drydedd wlad 'ddiogel'. Gallai'r wlad hon fod yn Rwanda, neu wlad arall y tybia Llywodraeth y DU sydd yn ddiogel, ond a all fod â record amheus o ran hawliau dynol. Effaith debygol y ddeddfwriaeth hon fydd cosbi'r bobl fwyaf bregus o bob cwr o'r byd.

Codwyd cwestiynau am gyfreithlondeb y Mesur ac a yw'n cydymffurfio â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop (CHDE) ac yn gyson â Chonfensiwn Ffoaduriaid 1951. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi nodi'n ysgrifenedig, os dewch i'r DU yn anghyfreithlon "Na allwch elwa o'n mesurau gwarchod rhag caethwasiaeth fodern".

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi'r iaith a ddefnyddiwyd i gefnogi'r Mesur hwn, sydd â photensial i feithrin a rhoi llwyfan i ddiwylliant o ddifenwi, hiliaeth a hyd yn oed drais yn erbyn ffoaduriaid a lleiafrifoedd.

Fel ardal wasgaru brofiadol, mae'r cyngor hwn wedi ymrwymo'n gadarn yn ein Cynllun Corfforaethol i sefydlu Casnewydd fel Dinas Noddfa. Mae'r Cyngor hwn a phobl Casnewydd wedi croesawu a derbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae gennym hanes balch o integreiddio a chynhwysiant. Mae ein dinas yn fwy diddorol, amrywiol a goddefgar o'r herwydd.

Mae'r Cyngor hwn yn cwestiynu gweithred Llywodraeth y DU yn dwyn y ddeddfwriaeth hon gerbron a geilw ar y Prif Weinidog a'i weinidogion i dynnu'r cynigion hyn yn ôl.

Galwn ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at y Prif Weinidog i leisio ein pryderon yn y modd cryfaf posib.

Gofynnwn hefyd i Arweinydd y Cyngor ymrwymo i sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi cefnogaeth lawn i bob partner a rhanddeiliad yng Nghasnewydd sydd ar hyn o bryd yn gweithio tuag at statws Dinas Noddfa.

Sylwadau gan Gynghorwyr:

- Soniodd y Cynghorydd Drewett am hanes ei deulu fel un sy'n ddisgynnydd i fewnfudwyr. Cyfeiriodd y Cynghorydd Drewett am ddigwyddiad gan y Groes Goch yn Ngwesty'r Westgate ddwy neu dair blynedd yn ôl dan y teitl Rhoi Llais. Siaradodd ceiswyr lloches yn y digwyddiad am eu profiadau ers cyrraedd Casnewydd a'u balchder gyda'r croeso cynnes a gawsant, y cyfeillgarwch a wnaed, a'r cyfleoedd oedd ar gael. Dywedodd y Cynghorydd Drewett fod gan Gasnewydd draddodiad balch o gefnogi mewnfudwyr, a'i fod yn cefnogi'r cynnig yn gryf.

- Soniodd y Cynghorydd Davies am ymchwil i hanes ei theulu ei hun, lle'r oedd ei hynafiaid wedi symud i'r DU am resymau economaidd, ac ar adegau eraill i ddianc rhag gwrthdaro ac erledigaeth. Dywedodd y Cynghorydd Davies nad oedd ei hanes yn anghyffredin, a'i bod yn falch o'i threftadaeth. Crybwyllodd y Cynghorydd Davies yr amgylchiadau presennol pan fo Casnewydd wedi croesawu pobl o Wrcain ac Afghanistan. Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies hefyd at y dagfa o ran prosesu ceisiadau am loches, ac yr oedd felly'n cefnogi'r cynnig.

- Yr oedd y Cynghorydd Lacey hefyd yn cefnogi'r cynnig ac adleisiodd sylwadau ei chydweithwyr. Dywedodd y Cynghorydd Lacey fod y dagfa o brosesu ceisiadau ym mis Chwefror wedi cyrraedd 160,000. Yr oedd y Cynghorydd Lacey yn falch fod Casnewydd yn gweithio tuag at statws Dinas Noddfa, am ei bod yn ystyried fod Casnewydd yn ddinas drugarog oedd yn ystyried cyfraniadau a hawliau'r sawl sy'n gweithio ac yn byw yn y ddinas. Yr oedd y Cynghorydd Lacey yn llawn gefnogi'r cynnig.

- Ystyriodd y Cynghorydd Whitehead fod hwn yn fater emosiynol a'i gwnaeth yn anodd i'w drafod. Dywedodd y Cynghorydd Whitehead fod Casnewydd yn ddinas amrywiol gyda record wych; fodd bynnag, mae gwasanaethau sy'n sylfaen i gymdeithas dan bwysau, gyda thai yn brif bryder. Awgrymodd y Cynghorydd Whitehead y dylid cynnal proses ymgynghori i ddwyn y trigolion i mewn. Crynhodd y Cynghorydd Whitehead y mater trwy ddweud, oherwydd bod gan y Cyngor ddyletswydd i bawb, y dylid ei drafod yn deg a thrugarog; er bod hwn yn achos teilwng, mae angen ymgynghori â'r trigolion.

- Soniodd y Cynghorydd Marshall fod gan Gasnewydd hanes balch o integreiddio a chynhwysiant a'i fod ef wedi gweld y ddinas yn amrywiol a goddefgar. Nododd y Cynghorydd Marshall y gwaith pwysig mae tîm rhyngwladol y Cyngor yn wneud i gefnogi pobl ifanc heb oedolion gyda hwy ac sy'n ceisio lloches, a thrwy bartneriaethau. Dywedodd y Cynghorydd Marshall y bu Casnewydd yn ddinas noddfa ers canrifoedd, a galwodd felly ar i'r Arweinydd gefnogi'r cynnig.

- Cefnogodd y Cynghorydd Forsey y cynnig ac adleisio sylwadau'r Cynghorydd Marshall, gan werthfawrogi gwaith y Prosiect Noddfa. Rhoddodd y Cynghorydd Forsey ystadegau am geisiadau yn ogystal â chwalu chwedlau am geisiadau am loches yn y DU. Teimlai'r Cynghorydd Forsey fod ceisio lloches yn hawl sylfaenol a gobeithiai y byddai pobl yn agor eu calonnau a'u ffiniau i greu cymdeithas fwy cynhwysol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cocks at Blac Glas ar adeilad yn Stryd Cross yng Nghaerllion oedd yn coffau plant o ffoaduriaid o Wlad y Basg yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yr oedd y Cynghorydd Cocks yn ystyried fod trigolion Caerllion yn falch o hyn.

- Lleisiodd y Cynghorydd Reynolds ei wrthwynebiad i'r Mesur, gan ystyried y sefyllfaoedd yr oedd ffoaduriaid yn ffoi oddi wrthynt, ac yr oedd felly yn cefnogi'r cynnig.

- Soniodd y Cynghorydd Mogford ei bod yn bwysig trafod y pwnc a gwrando ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Cyfeiriodd y Cynghorydd Mogford at y pwynt yn y cynnig am i'r Arweinydd ysgrifennu at y Prif Weinidog, a holi a allai'r Arweinydd ysgrifennu at ASau Casnewydd i ddechrau yn hytrach na mynd heibio iddynt a mynd yn syth at y Prif Weinidog. Ychwanegodd y Cynghorydd Mogford fod Casnewydd yn ddinas gydag adnoddau cyfyngedig, a holodd pa gefnogaeth fyddai'n cael ei gynnig i drigolion Casnewydd oedd mewn argyfwng.

- Cefnogodd y Cynghorydd Al-Nuaimi y cynnig yn llawn, gan ddweud fod Casnewydd eisoes yn ddinas noddfa. Cyfeiriodd y Cynghorydd Al-Nuaimi at ei gyfnod fel Maer yn 2006, pan ddywedodd ei fod wedi cyfarfod ag ASau i dderbyn statws Casnewydd fel dinas wasgaru. Cefnogodd y Cynghorydd Al-Nuaimi y cynnig, gan ddweud mai mewnfudwyr ddoe oedd dinasyddion da heddiw; fodd bynnag, yr oedd yn cytuno fod y cyfleusterau yn gyfyngedig, a bod yn rhaid ystyried hyn. Daeth i'r casgliad fod gan Gasnewydd ddyletswydd o ofal dros y trigolion, yn ogystal â'r rhai oedd yn ceisio noddfa.

- Cytunodd y Cynghorydd Morris gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed, a chadarnhaodd y byddai ef a'i gydweithwyr yn y ward yn ymatal rhag pleidleisio ar y cynnig yng ngoleuni'r pwysau yr oedd trigolion yn wynebu. Argymhellodd y Cynghorydd Morris na ddylai'r Cyngor anfon llythyr at y Prif Weinidog. Teimlai'r Cynghorydd Morris fod mewnfudwyr yn cael eu croesawu a'u cefnogi gan y trigolion, a dyfynnodd enghraifft o gynulleidfa eglwys mae'n ei mynychu, ond ei gasgliad oedd y byddai'r cynnig yn cael effaith ar bobl Casnewydd ac y byddai felly'n ymatal.

- Adleisiodd y Cynghorydd Evans y sylwadau a wnaed eisoes am y pwysau yr oedd trigolion yn eu hwynebu, a'r effaith andwyol, a soniodd am gwynion yr oedd wedi eu derbyn gan drigolion am wasanaethau'r cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Evans fod Casnewydd wedi cynnig lloches i dros 450,000 o bobl ers 2015 trwy wahanol gynlluniau, ac awgrymodd y dylai'r Cyngor gynnal refferendwm i drigolion Casnewydd i ganfod eu barn, ac yn y cyfamser, y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar ddarparu gwell gwasanaethau i ddinasyddion.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Rheolau Sefydlog sy'n caniatáu esbonio cynnwys y cynnig yn iawn, ac eglurodd y cynnig wrth gydweithwyr. Dywedodd yr Arweinydd fod Amcan 3, pwynt 6 y Cynllun Corfforaethol yn datgan y byddai Casnewydd yn ddinas noddfa, yn ceisio cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid o wahanol rannau o'r byd i ymgartrefu a dod yn rhan o gymuned Casnewydd. Yr oedd yr ymrwymiad wedi ei wreiddio yn y cynllun y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2022 gan holl aelodau'r Cyngor, gan gynnwys arweinwyr y gwrthbleidiau.

- Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud ei bod yn falch o fod yn ddinesydd o Gasnewydd, a'i bod yn caru ei dinas, ei chymuned a'r fan lle'i ganed; ac adlewyrchodd am ei phrofiad cadarnhaol mewn ysgol amrywiol. Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud fod ei chydweithwyr yng Nghyngor Casnewydd oll yn caru eu cartref, cyfoeth ac amrywiaeth y cymunedau, a nododd mai braint oedd ei rôl arweinyddol, gyda'r cyfle i gwrdd â phobl o wahanol gefndiroedd. Dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn golygu croesawu ffoaduriaid i'n dinas fawr a gwrando ar eu hanesion o oroesi ac o wytnwch. Dywedodd yr Arweinydd y byddai yn cael mynd i Ysgol Gynradd Maendy yr wythnos hon, a oedd yn Ysgol Noddfa. Esboniodd mai ystyr hyn oedd ei bod yn cael ei chydnabod fel ysgol o groeso ac o ddiogelwch, lle'r oedd empathi ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael ei feithrin. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod tua 520 o ddisgyblion yn yr ysgol, a bod tua 93% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, gyda thros 42 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad. Dywedodd yr Arweinydd fod yr ysgol yn ddiweddar wedi derbyn achrediad fel yr ysgol Noddfa gyntaf yng Nghasnewydd. Yr oedd yr Arweinydd wedi elwa o amrywiaeth ddiwylliannol wrth dyfu i fyny ac edrychodd ar blant Casnewydd oedd hefyd yn cael yr un

profiad, ac oherwydd y plant hynny a'u teuluoedd yr oedd yr Arweinydd yn falch o dderbyn y cynnig hwn.

- Yr oedd y Cynghorydd Reeks yn falch o gefnogi'r ddinas a chroesawodd ffoaduriaid oedd yn dod trwy'r sianeli cywir, ac ychwanegodd fod gan hyd yn oed Ddinas Noddfa derfynau. Yr oedd y seilwaith mewn argyfwng, a chyfeiriodd at yr ysgolion gorlawn. Teimlai'r Cynghorydd Reeks fod angen canolbwyntio ar dasgau beunyddiol normal y cyngor, ac felly nid oedd yn cefnogi'r cynnig.

- Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod, fel cynghorydd, yno i gynrychioli pobl Casnewydd a chytunodd ei fod yn lle croesawgar. Lleisiodd y Cynghorydd Jones hefyd bryderon am ddiffyg cyfleusterau, oedd yn bryder i'r trigolion.

- Yr oedd y Cynghorydd Routley yn ystyried ei bod yn hollbwysig i'r Cyngor ymdrin â digartrefedd, tai a gofal meddygol, ac adleisiodd sylwadau cydweithwyr, ac yr oedd felly yn gwrthwynebu'r cynnig.

- Soniodd y Cynghorydd Hourahine hefyd am sylwadau blaenorol cydweithwyr ar y cyngor, a chefnogodd y cynnig yn gryf.

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r Cyng. Stowell-Corten am gyflwyno'r cynnig hwn, ac fe'i cefnogodd.

- Cefnogodd y Cynghorydd Clarke y cynnig ac amlinellodd bryderon yn y Mesur yn ogystal â'r effaith negyddol trwy gyfryngau cymdeithasol Casnewydd. Yr oedd y Cynghorydd Clarke yn falch o fyw yng Nghasnewydd ac yn falch o'i dinasyddion.

- Yr oedd y Cynghorydd Stowell-Corten yn falch o gloi'r ddadl a chyflwynodd ei dadleuon, gan atgoffa pawb o bwrpas y cynnig. Adlewyrchodd y Cynghorydd Stowell-Corten ar sylwadau cydweithwyr, ac ystyriodd sefyllfa ffoaduriaid, gan ddychmygu sut y buasent hwy yn teimlo yn eu sefyllfa hwy. Manteisiodd y Cynghorydd Stowell-Corten ar y cyfle i roi gwybodaeth am y dagfa o 138,000 o geisiadau ac ystadegau a ffeithiau eraill, gan chwalu unrhyw chwedlau fyddai gan gynghorwyr am fewnfudwyr anghyfreithlon, llwybrau diogelach, a llwybrau fisa unswydd. Cyfeiriodd hefyd at sylwadau gan gynghorwyr o ran tai, ysgolion llawn, meddygon a deintyddion dan bwysau. Y mae Casnewydd yn ardal wasgaru, ac yr ydym wedi croesawu nyrsys, meddygon a deintyddion oedd gynt yn geiswyr lloches. Nid oedd ceiswyr lloches yn neidio'r ciw, ac yr oedd y rhan fwyaf o bobl a ddadsefydlwyd yn aros mewn gwlad agos i'w gwlad wreiddiol er mwyn gallu dychwelyd adref cyn gynted ag oedd modd. Yr oedd y rhai a ddaeth i Gasnewydd yn gwneud hynny oherwydd bod ganddynt gysylltiadau yma. Mae dros 30 o ieithoedd yn cael eu siarad yn ysgolion Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos, ac yr oedd y Cynghorydd Stowell-Corten yn falch o hyn, a'r ffaith fod ein plant yn oddefgar, yn cydymdeimlo ac yn ddinasyddion â meddyliau agored. Gallai llawer o gydweithwyr olrhain tras eu teuluoedd yn ôl at fewnfudwyr a ffurfiodd gymysgedd o ddiwylliannau, ieithoedd a syniadau i greu Prydain a Chasnewydd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt heddiw. Yr oedd rhyfeloedd a gwrthdaro yn creu argyfyngau dynol. Byddai plant sydd yn ffoi o ryfel yn Swdan heddiw yn cael eu cadw a'u hanfon o'r wlad. Yn ffodus, ni fyddai neb sydd yma heddiw yn gorfod chwilio am noddfa yn y dyfodol.

Penderfynwyd:

- Pleidleisiodd mwyafrif y Cynghorwyr o blaid y cynnig, Cafodd y cynnig felly ei basio.
- Galwodd y Cynghorwyr hefyd ar i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog yn amlinellu pryderon y Cyngor.

6. **Datganiad Tâl a Gwobrwyo**

Esboniodd yr Uwch-Gyfreithiwr Cyfreitha wrth aelodau'r Cyngor y gwrthdrawiad buddiannau ynghylch yr eitem uchod, oedd a wnelo â'r Prif Weithredwr a'r Uwch-Swyddogion, felly gofynnwyd i'r Prif Weithredwr a'r Uwch-Swyddogion adael Siambrau'r Cyngor ar y pwynt hwn.

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad, oedd â dwy eitem i'w hargymell i'r Cyngor llawn. Yr oedd hyn yn gofyn i gydweithwyr adolygu a chytuno ar y Polisi Tâl a Gwobrwyo blynyddol, ac alinio Gwyliau Prif Swyddogion.

Adroddiad blynyddol oedd y Polisi Tâl a Gwobrwyo i'r gweithlu, oedd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu. Yr oedd y polisi yn gosod allan y mecanweithiau mewnol ar gyfer talu swyddogion y Cyngor, ac yn dangos unrhyw newidiadau neu gyfoesiadau ers ei fabwysiadu ddiwethaf yn 2022.

Yr oedd unrhyw newidiadau a wnaed dros y 12 mis diwethaf wedi eu cefnogi gan y prosesau democrataidd priodol lle byddai angen, a'u nodi yn yr adroddiad.

Pan adroddodd yr Arweinydd ddiwethaf fod bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn dal i gymharu'n ffafriol â Chynghorau eraill ledled Cymru a'r DU, rhagwelwyd y byddai hyn yr un fath pan fydd y Cyngor hwn yn cyfoesi 'r data tâl yn nes ymlaen y mis hwn. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd y gwelodd y Cyngor ostyngiad yng nghymhareb y tâl rhwng y swyddogion sy'n derbyn y cyflogau isaf a'r rhai uchaf, sydd yn golygu llai o fwlch.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut yr oedd y Cyngor yn alinio gwyliau swyddogion, a thelerau ac amodau eraill, fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gytundeb statws sengl yn 2015. Yn nyfarniad cyflog 2022/23, cafodd yr holl swyddogion, ac eithrio am Brif Swyddogion, ddiwrnod ychwanegol o wyliau fel rhan o'r dyfarniad cyflog.

Er mwyn sicrhau parhad o ymrwymiad y Cyngor i statws sengl, lle bo modd, argymhellwyd y dylid alinio gwyliau Prif Swyddogion hefyd i gynnwys y diwrnod ychwanegol o wyliau a ddyfarnwyd i swyddogion y Cyngor been awarded.

Eiliodd y Cynghorydd Batrouni yr adroddiad.

Penderfynwyd:

Fod y Cyngor

1. Yn adolygu a chytuno ar y Polisi Tâl a Gwobrwyo er mwyn cwrdd â'r gofyniad statudol am gymeradwyo a chyhoeddi datganiad polisi tâl yn flynyddol gan y Cyngor.

Adolygu a chytuno aliniad gwyliau Prif Swyddogion.

7. **Strategaeth Gyfranogi: Cyfarfodydd Ward**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i gyflwyno'r Fframwaith arfaethedig ar gyfer ail-gyflwyno Cyfarfodydd Ward fel dull gwerthfawr o ymwneud â thrigolion.

Yr oedd yr adroddiad yn ceisio caniatâd y Cyngor i fabwysiadu'r fframwaith fyddai'n gosod allan amlder, trefn busnes a darparu cefnogaeth i Gyfarfodydd Ward.

Ym mis Mai 2022, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i gefnogi trigolion i ymwneud mwy mewn penderfyniadau, ac annog mwy o amrywiaeth yn y sawl sy'n gwneud penderfyniadau trwy fabwysiadu Strategaeth Gyfranogi.

Dan y strategaeth hon, nod y Cyngor oedd adeiladu ar y rhaglen bresennol o ymwneud ac ymgynghori â'r cyhoedd i gael gwell cyfranogiad yn y prosesau democrataidd.

Dangosodd adborth o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Gyfranogi fod y trigolion eisiau i'r Cyngor ymchwilio i ddulliau amgen o ymgynghori, ac yr oedd Cyfarfodydd Ward yn un o'r sawl ffordd y gall y Cyngor gefnogi dwyn y cyhoedd i mewn i wneud penderfyniadau.

Wrth ddatblygu'r fframwaith arfaethedig, amlygodd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y nodweddion allweddol a oedd yn eu barn hwy yn rhan hanfodol o drefniadau cyfarfodydd ward; yr oedd y nodweddion hyn yn helpu i sicrhau bod trigolion yn cael cyfle i ymwneud â phenderfyniadau pwysig, ac i osod eu hagenda eu hunain, gan adlewyrchu'r materion oedd yn bwysig i bob cymuned.

Mae diffinio fframwaith y cytunir arno am y cyfarfodydd ward, sydd yn cynnwys dau Gyfarfod Ward y flwyddyn gyda chefnogaeth lawn i bob ward, yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i ymwneud â'r trigolion ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu cymunedau mewn modd amserol.

Byddai defnyddio un o'r cyfarfodydd ward rheolaidd i ganolbwyntio ar osod cyllidebau a chefnogi trigolion i ymwneud â'r r broses hon wyneb yn wyneb yn annog adborth gwerthfawr ac ystyrlon fyddai'n llunio canlyniadau'r penderfyniadau a wneir.

Hefyd, byddai ai gyfarfod ward gyda chefnogaeth, oddeutu chwe mis wedi'r cyfarfod ward i osod cyllideb, yn gyfle pellach i hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor gan gynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn amcanion a phrosiectau allweddol.

Lle byddai Aelodau yn dymuno cynnal trydydd cyfarfod mewn blwyddyn, byddai cefnogaeth weinyddol yn cael ei roi o ran archebu lleoliadau addas mewn cymunedau i gyfarfodydd ward, ond ni fyddai cefnogaeth gan swyddogion yn y cyfarfodydd hyn.

Pwynt pwysig yw y byddai'r ddau gyfarfod ward gyda chefnogaeth yn gyfle i'r trigolion osod eu pwyntiau trafod eu hunain, felly gallai'r gymuned helpu i osod agenda fyddai'n llwyfan i drafod yr hyn sydd o bwys yn eu cymuned.

Tra byddai'r fframwaith arfaethedig yn cefnogi cyfarfodydd ym mhob ward petae angen, mater i aelod/au y ward fyddai pennu a ddylid cynnal cyfarfodydd ward yn eu cymuned hwy.

Efallai y byddai'n well gan Aelodau gyfathrebu gyda'u trigolion mewn ffordd wahanol, megis cymorthfeydd ward, gwaith achos, e-byst neu gyfryngau cymdeithasol, er enghraifft.

Yr oedd Cyfarfodydd Ward yn ddewis y gellir ei ddefnyddio i wella cyfathrebu, ond ni fyddant yn cymryd lle unrhyw ddulliau eraill o ymwneud â chymunedau oedd ar gael i'r Cynghorwyr.

Yr oedd y fframwaith arfaethedig yn cefnogi datblygu mwy o ymwneud â'r trigolion yn y tymor hir fel y gall y Cyngor barhau i rymuso'r gymuned fel rhan o wneud penderfyniadau ac o'r prosesau democrataidd.

Yr oedd y Cynghorydd Al-Nuaimi yn falch fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi penderfynu ail-gychwyn y cyfarfodydd ward wedi i'r pandemig dorri ar eu traws a'u hatal. Yr oedd gan y Cyngor hwn record falch o arloesi gyda chyflwyno'r cyfarfodydd hyn, dros 25 mlynedd yn ôl. Yr oeddent yn fforymau trafod ac ymwneud gyda'n trigolion, gan ganiatáu iddynt ddweud eu dweud ar faterion yn eu cymunedau, gan gynnwys materion plismona a chyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.
Serch hynny, yr oedd y Cynghorydd Al-Nuaimi braidd yn siomedig gyda'r hyn oedd yn ymddangos fel cyfyngiadau ar reoli pwrpas cyfarfodydd ward, eu hamseru, a chefnogaeth gan swyddogion i'r trydydd cyfarfod.

Yn ei ward ef o Stow Hill, yr oedd y trigolion wedi gweld colli'r cyfarfodydd dros y 3 blynedd ddiwethaf fel fforymau ymwneud ac fel ffynhonnell o wybodaeth.

Trwy ddefnyddio'r fformat newydd a argymhellir yn yr adroddiad, yr oedd y trigolion a'r Cynghorydd Al-Nuaimi yn edrych ymlaen at ail-gydio yn y cyfarfodydd ward, i gymryd rhan ac i ymwneud at y dyfodol.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Evans.

Penderfynwyd:

-

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad a chymeradwyo'r fframwaith arfaethedig i'w mabwysiadu, fel y nodir yn yr adroddiad.

8. **Adroddiad Blynyddol Craffu 2021/22**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu, y Cynghorydd Hourahine, i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu 2021/2022 i'r Cyngor. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cyngor ac eraill sydd â diddordeb am rôl pwyllgorau craffu, a'u gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2021/22.

Y mae Craffu yn swyddogaeth Cynghorau yng Nghymru a Lloegr ac fe'i cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a gyflwynodd swyddogaethau Cabinet a Chraffu ar wahân mewn awdurdodau lleol.

Cryfhawyd rôl craffu gyda phasio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Y mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod y Pwyllgor yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar y gwaith a wnaed dros y 12 mis a aeth heibio, a'i raglen waith at y dyfodol. Ers cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan graffu hefyd rôl statudol o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

Egwyddor sylfaenol trefniadau Craffu oedd sicrhau fod y broses o wneud penderfyniadau yn agored, atebol a thryloyw.

Roedd y swyddogaeth graffu yng Nghyngor Dinas Casnewydd yn cael ei gyflawni gan bedwar pwyllgor craffu, gydag Aelodau Etholedig nad oeddent yn rhan o bwyllgor gwaith y Cyngor. Yr oedd a wnelo tri o'r pwyllgorau hyn â pherfformiad dan Lle a Chorfforaethol, Pobl, a Phartneriaethau. Mae Rheoli Trosolwg a Chraffu yn ystyried polisïau, strategaethau a chynlluniau sy'n trawstorri ac yn cael effaith ar y Cyngor cyfan.

Yr oedd yr adroddiad blynyddol yn ymdrin â'r cyfnod o Fai 2021 tan fis Ebrill 2022 a hwn oedd adroddiad blynyddol olaf y tymor pum-mlynedd yn arwain at yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu ail-strwythuro a olygodd fod ffurf y Cyngor wedi newid; fodd bynnag, ni chafodd hyn effaith sylweddol ar y meysydd gwasanaeth yr oedd pob Pwyllgor yn craffu arnynt.

Amlygodd yr adroddiad y gwaith pwysig a wnaed gan Graffu dros y flwyddyn, pan gyfarfu'r pedwar pwyllgor yn rheolaidd.

Yr oedd Pwyllgorau Perfformiad yn ystyried cyfoesiadau rheolaidd ar gynlluniau gwasanaeth ar gyfer eu meysydd perthnasol, a defnyddiwyd y sylfaen hon o dystiolaeth i graffu ar berfformiad mewn cyd-destun ehangach. Mae cyfoesiadau'r cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ariannol, cysylltiadau ag amcanion corfforaethol, nodau lles a gwaith tuag at nodau a osodwyd y tu allan i'r Cyngor.

Yr oedd cyfoesiadau diwedd blwyddyn hefyd yn cynnwys manylion am y modd yr ymaddasodd y Cyngor ac ymateb i'r heriau a wynebwyd gan wasanaethau a chymunedau oherwydd y pandemig, a sut y darparwyd cefnogaeth i drigolion a busnesau.

Gwnaed nifer o argymhellion i'r Cabinet yn canmol ansawdd y cyfoesiadau, ac i hyrwyddo llwyddiannau allweddol yng Nghasnewydd fel bod trigolion yn cael gwybod am gamau oed dyn rhoi cefnogaeth yn ystod y pandemig ac ar ei ôl.

Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd Pwyllgorau adroddiadau am ymatebion y Cabinet i argymhellion a wnaed Pwyllgorau yn flaenorol i gynigion y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys buddsoddiadau, fel rhan o gylch gorchwyl Craffu o fesur ac asesu effaith a gwerth yr awdurdod.

Y tu allan i'r cylch adolygu perfformiad, ystyriodd y Pwyllgorau Craffu ar Berfformiad hefyd adroddiadau ar bynciau gan gynnwys Gofal Preswyl Mewnol yng Nghasnewydd gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth leol oedd ar gael i blant yn derbyn gofal, y Strategaeth Adfer Economaidd sy'n rhoi manylion am gynnydd yn erbyn y cynllun i gefnogi busnesau a buddsoddiad yng Nghasnewydd, a'r gefnogaeth lles a ddarparwyd i'r staff yn y cyfnod heriol hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad am Bartneriaethau Adroddiad Blynyddol y Cynllun Lles a gyflwynwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a chyflwyno'r sylwadau i'w rhannu gyda'r BGC. Yn yr un modd, craffodd y Pwyllgor hefyd y perfformiad yn erbyn Cynllun Lles 2020-21 a chyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w hystyried. Yr oedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau hefyd yn asesu'r gwaith cydweithredol rhwng y Cyngor a'r Gwasanaethau Asesu Addysg, Gwasanaeth Cyd-Adnoddau a Barnardo's fel rhan o'u hagenda.

Ystyriodd y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu strategaethau allweddol a'u llunio o ran gosod allan flaenoriaethau i'r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y Strategaeth Newid Hinsawdd a'r Strategaeth Pum-Mlynedd i Gymru, yn ogystal â chyfoesiadau ynghylch diogelu, rheoli risg a gwasanaethau digidol.

Gwnaed cryn gynnydd yn erbyn camau a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod adrodd yn ystod yr amser hwn, gan gynnwys adolygiadau i wneud yn siŵr fod trefniadau craffu yn dal i gwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Gwnaeth hyn yn siŵr fod craffu yn parhau i weithio'n effeithiol wrth ystyried newidiadau deddfwriaethol diweddar. Byddai hyn hefyd yn ganolbwynt i Graffu yn y cyfnod adrodd nesaf i gydnabod newidiadau i'r trefniadau craffu yn rhanbarthol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yr oedd y Cynghorydd Hourahine yn edrych ymlaen at gadeirio'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am weddill y flwyddyn fwrdeistrefol, gan weithio gydag aelodau'r pwyllgor i roi her wrthrychol a chynhyrchiol i benderfyniadau'r awdurdod lleol. Manteisiodd y Cynghorydd Hourahine hefyd ar y cyfle i ddiolch i gydweithwyr craffu, Aelodau Cabinet, swyddogion yr awdurdod lleol a phartneriaid am eu cefnogaeth gyson.

Eiliodd y Cynghorydd Routley y cynnig a llongyfarch yr aelodau craffu am eu cefnogaeth.

Penderfynwyd:

Cytunodd y Cyngor ar gynnwys yr adroddiad blynyddol fel sail i waith y Pwyllgorau Craffu yn y flwyddyn i ddod.

9. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn cychwyn ar gwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol:

Agor y bont newydd

Yr wythnos ddiwethaf, yr oedd yr Arweinydd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, Lee Waters AoS, a'r Maer, yn agoriad swyddogol pont teithio llesol newydd canol y ddinas.

Yr oedd y bont yn cymryd lle'r hen danffordd ac yn rhoi i drigolion ac ymwelwyr lwybr mwy diogel a hygyrch ar draws y rheilffordd. Yr oedd yn cysylltu cymunedau a chanol y ddinas, rhywbeth y dywedodd y trigolion yn glir eu bod eisiau wrth ymateb i'r ymgynghoriadau ar deithio llesol.

Yr oedd hwn yn brosiect cymhleth, wedi ei arwain gan Gyngor Dinas Casnewydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru. Codwyd y bont ar y safle gan gontractwyr ac isgontractwyr oedd oll yn gwmnïau Cymreig, oedd o les uniongyrchol i'r economi lleol a chymunedau.

Yr oedd adeiladu'r bont newydd yn gam arall ymlaen i gyflwyno cynlluniau adfywio ehangach i ganol y ddinas, a gwnaeth lawer i wella'r fan gyhoeddus o gwmpas y ganolfan drafnidiaeth bwysig hon, gan wneud yr ardal yn fwy deniadol o lawer i'r holl ddefnyddwyr. Yr oedd y gwelyau plannu yn gynaliadwy, diolch i system ddraenio oedd yn dal ac yn cyfeirio dŵr atynt.

Marathon
Yr oedd yn bleser gan Gyngor Dinas Casnewydd groesau miloedd o redwyr a gwylwyr i'r ddinas ychydig dros wythnos yn ôl i farathon ABP Casnewydd Cymru a'r 10k. Nid oedd y tywydd ar ei orau yn ystod y dydd, ond yr oedd yn berffaith i'r cystadleuwyr, gan osod tair record newydd.

Yr oedd Casnewydd ar y sgrin fach eto pan gafodd y ras a'r pigion eu darlledu ddydd Gwener. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, i'r holl wirfoddolwyr lleol a'r sawl fu'n gweithio'n galed i wneud y digwyddiad yn llwyddiant.

Coroni
Yr oedd penwythnos y Coroni ar y gorwel; felly hefyd y cynlluniau am ddigwyddiadau cymunedol. Yr uchafbwynt eleni oedd y Cinio Mawr ym Mharc Beechwood, ar ddydd Sul, Mai 7 o hanner dydd tan 4pm.

Gyda chefnogaeth gan Radio Dinas Casnewydd, Grŵp Parc Beechwood a Chasnewydd Fyw, byddai cerddoriaeth fyw, diddanwyr ar grwydr, cyfleusterau chwaraeon a chrefft i'r teulu cyfan.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi y byddai'r Cyngor yn gallu cefnogi partïon stryd eto eleni. Yr oedd ceisiadau yn cael eu prosesu, a byddai'r rhai llwyddiannus yn cael eu cefnogi gyda rheoli traffig ar y dydd.

Yr oedd mwy o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau adeg y Coroni ar gael ar ein gwefan.

Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru
Wedi'r coroni, y digwyddiad mawr nesaf oedd Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi mai yng Nghasnewydd y cynhelid y digwyddiad eleni ar ddydd Sadwrn 24 Mehefin, gyda rhaglen lawn o ddigwyddiadau.

Byddai'r diwrnod yn cychwyn am 10am gydag arddangosfeydd milwrol ar lan yr afon, a mudiadau fel y Lleng Brydeinig, y Gymdeithas Forwrol Frenhinol, Help for Heroes, Canolfan Cyn-Filwyr Casnewydd, GAVO a llawer mwy, gyda stondinau yn y theatr a'r ganolfan gelfyddydau.

Byddai gorymdaith yng nghanol y ddinas dan arweiniad Band Catrodol a Chorfflu Drymiau'r Gatrawd Gymreig Frenhinol, a byddai Tîm Arddangos Parasiwtiau Tigers y Fyddin yn "galw i mewn" i rywle yng nghanol y ddinas.

Byddai gweithgareddau canol y ddinas yn gorffen am 3pm ond byddai cyngerdd am ddim yn Rodney Parade o 4pm tan 6pm.

Croesawodd yr Arweinydd gefnogaeth cydweithwyr i'r diwrnod clodfawr hwn pryd y gallai'r cyngor, ei gymunedau, a phobl o fannau y tu hwnt ddangos eu diolchgarwch i bawb sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r cyn-filwyr. Byddai cydweithwyr yn y Cyngor yn edrych ymlaen at i aelodau o'r lluoedd arfog, cyn-filwyr, trigolion, ac ymwelwyr ymuno a hwy ar yr achlysur pwysfawr.

Am fwy o wybodaeth a'r cyhoeddiadau diweddaraf, awgrymodd yr Arweinydd gadw golwg ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

Digwyddiad costau byw a thlodi ysgolion
Ar ddydd Mercher, 26 Ebrill, byddai'r Cyngor yn cynnal digwyddiad costau byw arall i gynnig cefnogaeth i drigolion Casnewydd.

Cynhelir hyn yn Theatr y Riverfront a'r Ganolfan Gelfyddydau, a gallai aelodau'r cyhoedd alw heibio ar unrhyw adeg rhwng 10am a 6pm.

Bu cannoedd o bobl leol mewn digwyddiad cyffelyb fis Tachwedd diwethaf. Yr oedd y Cyngor eto wedi ymuno â mudiadau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Casnewydd, Age Cymru Gwent, Cartrefi Melin, Undeb Credyd Casnewydd, Wastesavers a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Byddai'r digwyddiad yn groesawgar, cynhwysol ac anffurfiol. Gallai pobl bicio i mewn i gael sgwrs gyda rhywun neu ddim ond edrych o gwmpas, a byddai te a choffi am ddim, a gweithgareddau i'r plant.

Yn yr un modd, roedd y Cyngor hefyd yn gweithio gydag ysgolion i wneud gwahaniaeth i fywydau plant o aelwydydd incwm isel.

Cafodd strategaeth newydd ei lansio yn ddiweddar i gymryd agweddau unswydd, wedi eu targedu, a rhai cyffredinol i fynd i'r afael â phob agwedd o dlodi oedd yn cael effaith ar blant a'u teuluoedd.

Nod y strategaeth oedd dileu'r rhwystrau a allai effeithio ar addysg plentyn. Cafodd pob ysgol gyflwyniad gan Blant yng Nghymru am gymryd agwedd ysgol-gyfan, a thrwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, byddai llawer o gyngor a chefnogaeth ar gael i ysgolion, disgyblion a theuluoedd.

Cafodd yr Arweinydd y fraint o fynd i Ysgol Gynradd St Julian yr wythnos ddiwethaf, lle cyflwynodd y plant yr Arweinydd i'r Big Box Void. Archfarchnad fechan oedd hon, mewn cynhwysydd allforio ar safle'r ysgol. Yr oedd y cynhwysydd a nwyddau trydanol mawr wedi eu cyflenwi gan Lywodraeth Cymru. Ymunodd ysgolion eraill yng Nghasnewydd â'r fenter hon, oedd â dau nod: lleihau gwastraff bwyd, a gwneud bwyd yn fforddiadwy i'r gymuned. Daeth y rhoddion gan staff a theuluoedd a chan siopau lleol. Yr oedd yno hefyd gnydau a dyfwyd yn y twneli poly, oedd yn golygu bod y plant wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorwyr D Davies ac M Spencer am eu hymwneud. Yr oedd y siop hefyd yn cadw clytiau babanod, past dannedd, nwyddau hylendid ac eitemau eraill i'r cartref, a siop talu-fel-y-teimlwch ydoedd. Yr oedd hyn yn ymdrech gymunedol enfawr gan Ygsol Gynradd St Julian, ac yr oedd yr Arweinydd yn falch o ymdrechion yr holl ysgolion yng Nghasnewydd.

Ail-agor y Llyfrgell, Amgueddfa a'r Oriel Gelf

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, y mae adeilad y Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd yn Sgwâr John Frost wedi ail-agor wedi rhaglen waith fawr a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru i greu lle i dimau ychwanegol o'r Cyngor.

Gall trigolion yn awr gyrchu amrywiaeth o wasanaethau yng nghanol y ddinas.

Gan wneud llawer gwell defnydd o adeilad oedd ym meddiant y Cyngor, yr oedd y cynllun yn cynnwys swyddfeydd newydd; ystafelloedd lle gellid cynnal apwyntiadau gyda'r trigolion, a chyntedd llawer mwy golau a mwy croesawgar.

Yr oedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar beth o waith celf unigryw yn yr adeilad. Llwyddodd Urban Circle i gael cyllid i'r prosiect, ac yr oedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at weld arddangos y gwaith hwn yn fuan.

Cwestiynau i'r Arweinydd

Cynghorydd M Evans:
Mae un o bob saith o bobl yng Nghymru yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth, ac y mae hyn yn cynnwys miloedd o bobl Casnewydd. A oedd yr Arweinydd felly yn erbyn neu o blaid cynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth twristiaeth, ac a allai esbonio'r rhesymau pam.

Ymateb:
Teimlai'r Arweinydd fod twristiaeth yn agwedd bwysig o economi Cymru a bod lletygarwch yn rhan o dwristiaeth. Yr oedd gan Gasnewydd lawer i'w gynnig, ac yr ydym hefyd yn cefnogi datblygu mwy o lefydd gwelyau, a'r Ganolfan Gynadledda Ryngwladol. Mae gennym hefyd ein hasedau treftadaeth gan gynnwys y Bont Gludo a Chaerllion, ac y mae ein hanes Rhufeinig yn ddi-ail. O ran y dreth twristiaeth, byddai hyn yn cael ei adael i ddoethineb bob awdurdod lleol unigol; yr oedd hwn yn bwynt allweddol gan ei fod yn galluogi'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i benderfynu ar hyn fesul achos. Mater i'r Cyngor llawn oedd trafod a ddylid cyflwyno treth twristiaeth.

Ategol:
Mae cynghorau eraill yng Nghymru wedi gwneud datganiadau cyhoeddus am dreth twristiaeth, pam nad ydym ni wedi gwneud hyn eto?

Ymateb:
Ni fyddai'r Arweinydd yn gwneud datganiad hyd nes y ceid dadansoddiad llawn o'r holl dystiolaeth, gan gynnwys y wybodaeth ariannol am hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Arweinydd y gefnogaeth wych a roddir gan y Tîm Cefnogi Busnes i bob busnes ledled Casnewydd, gan gynnwys y rhai mawr, bach a chanolig. Y mae'n bwysig cydnabod fod y Cyngor hwn yn cefnogi busnesau, ac y mae hyn yn cael ei ddangos trwy elfen ddewisol y dreth fusnes, a'r ad-daliad gan Lywodraeth Cymru. Byddai'n rhaid i'r wybodaeth ar y pwnc a godwyd gan y Cynghorydd Evans fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Cynghorydd Morris:
Ai'r unig ffordd i wneud apwyntiad ar gyfer y domen oedd ar-lein?

Ymateb:
Dywedodd yr Arweinydd nad dyma'r unig ffordd ac y gallai trigolion hefyd wneud apwyntiad wyneb yn wyneb. Gallai trigolion fynd i'r llyfrgell, yr amgueddfa a'r hybiau i gael gwybodaeth.

Cynghorydd Hourahine:
Ym mis Ionawr, cafwyd dau ddiwrnod o ymwneud â'r cyhoedd yng Nghasnewydd, yn ystod y broses gyllidebu. A oedd yr Arweinydd yn ystyried y byddai unrhyw fudd o fabwysiadu agwedd o'r fath gyda dosbarthu cyllid?

Ymateb:

Byddai llawer o gynghorwyr yn ymwybodol o'r gwaith cyfranogol ar y gyllideb a arweiniwyd gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, a diolchodd yr Arweinydd i gydweithwyr ar y cyngor am waith a wnaed o ran amlygu a chadarnhau ceisiadau a wnaed gan drigolion.

Cytundeb partneriaeth oedd hwn gyda BIPAB a Phartneriaeth Un Casnewydd. Ffordd ydoedd o alluogi cymunedau i gyrchu adnoddau nad oeddent yn cael eu cyfarwyddo gan y Cyngor. Cychwynnodd hyn tua dechrau'r pandemig. Byddai cydweithwyr yn cofio, ar ddiwedd y pandemig, fod y Cyngor wedi cyflwyno gwerth £0.5M o gynllun cymunedol i adfer o covid, wedi ei ddosbarthu trwy'r cynllun cyllidebu cyfranogol. Eleni, nod y rhaglen oedd adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn, gwella iechyd a lles pobl, ymdrin ag anghydraddoldeb, mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, a gwneud Casnewydd yn lle gwell i fyw. Cwblhawyd pedair rhaglen mewn cyllidebu cyfranogol, ac awgryma'r dystiolaeth fod hon yn ffordd dda iawn o neilltuo arian. Yr oedd sefydliadau oedd yn bartneriaid hefyd wedi darparu arian ychwanegol. Yr oedd hon yn ffordd bwysig o hwyluso cyfranogi, ac yn ddull o gael dinasyddion i benderfynu lle'r oedd arian cyhoeddus yn mynd, ac yr oedd yn helpu partneriaid a chynrychiolwyr cymunedol i gymryd rhan. Bu'r Arweinydd yn ddiweddar yn Fforwm Menywod Casnewydd lle'r amlygwyd storïau o lwyddiant. Yr oedd gwaith prosiect hefyd yn digwydd ym Mhilgwenlli, gyda rhai a lwyddodd i dderbyn yr arian hwn. Nid yn unig y mae'n ffordd effeithiol o ddosbarthu arian, ond y mae'n ddull o adeiladu cyfalaf cymdeithasol ac yn cynyddu hyder mewn sefydliadau cyllido a grwpiau cymunedol. Bu hyn yn boblogaidd, ac yr oedd ymhell dros 1,000 o bobl wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyn, ac yr oedd yr Arweinydd yn falch o'r Tîm Partneriaethau, a arweiniodd y ffordd yn hyn. Yr oedd yn esiampl o ran dosbarthu cyllid ledled Cymru a'r DU.

10. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Yr oedd un cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet.

<u>Cwestiwn 1 – Dirprwy Arweinydd/ Aelod Cabinet: Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar</u>

<u>Cynghorydd Routley</u>

Wrth i nifer y datblygiadau tai newydd yng Nghasnewydd gynyddu, mae'n dod yn gynyddol amlwg fod ein hysgolion presennol yn cael trafferth i gwrdd â'r galw.

Fel Aelod Cabinet, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i liniaru'r argyfwng presennol o ran lleoliadau i ddisgyblion sy'n effeithio ar nifer o deuluoedd?

Pa fesurau y byddwch chi a'ch gweinyddiaeth yn eu cymryd i ymdrin â'r straen emosiynol sy'n dod i ran rhieni oherwydd bod cynifer o geisiadau yn cael eu gwrthod?

<u>Ymateb gan y Cynghorydd Davies</u>
Cyhoeddwyd cynigion o lefydd yng ngrŵp blwyddyn Derbyn Medi 2023 ar 17 Ebrill, ac er i gyfran uchel o ymgeiswyr lwyddo i gael lle yn eu dewis ysgol, methodd lleiafrif o ysgolion cynradd y mae'r Cyngor yn awdurdod derbyn iddynt (2/37) ateb y galw am lefydd gan ddisgyblion oedd yn byw yn eu dalgylchoedd. Mae hyn yn siomedig; fodd bynnag, mae rhieni yn wastad yn cael eu hannog i gynnwys dewisiadau lluosog wrth wneud eu ceisiadau er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn derbyn cynnig sy'n eu bodloni. Bydd y Tîm Derbyniadau Ysgolion yn dal i weithio gyda theuluoedd heb gynnig cyfredol i sicrhau lle mewn ysgol arall i'w plant, a'u cefnogi gyda'r broses hon.

Ar waethaf hyn, mae digon o lefydd yn gyffredinol ledled y ddinas yn y sector cynradd, ac y mae'r Cyngor felly yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran addysg statudol; mae'n anorfod, fodd bynnag, nad yw hyn yn wastad yn cyd-fynd â dewis rhieni. Bydd datblygu ysgol newydd ar ddatblygiad Whiteheads, ac adleoli Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn sgil hynny, yn golygu y bydd mwy o lefydd cynradd ar gael yng ngorllewin y ddinas, a

bydd dwy ysgol gynradd a arweinir gan ddatblygwyr yn agor yn nwyrain y ddinas dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae holl ysgolion cynradd Casnewydd yn perfformio i safonau uchel, ac y mae ein polisi Cludo o'r Cartref i'r Ysgol yn cefnogi plant oed ysgol gynradd Casnewydd y mae eu hysgol agosaf sydd ar gael ddwy filltir neu fwy o'u cyfeiriad cartref.

O ran y sector uwchradd, bydd niferoedd derbyn cyhoeddedig dwy ysgol uwchradd yn cynyddu'n ffurfiol o Fedi 2023 ymlaen i helpu i ateb y galw trosiannol, ac unwaith eto, mae digon yn gyffredinol o lefydd yn y sector i garfan Blwyddyn 7Medi 2023. Byddwn yn parhau i adrodd a monitro'r rhagolygon am alw'r dyfodol am lefydd uwchradd, trwy'r grŵp Cynllunio Llefydd mewn Ysgolion, a defnyddir y data fel sail i brosiectau cyfalaf y dyfodol.

11. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Mai a hwn fydd CCB y Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i'r holl gynghorwyr am eu gwaith caled, ac yn enwedig i'r aelodau etholedig newydd am y gwaith yn eu wardiau.

The meeting terminated at Time Not Specified